24EG O HYDREF

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr Wythnosol



## Wythnos yma

Rydym wedi mwynhau wythnos hyfryd yn yr ysgol. Dydd Mercher, aeth bl 4,5 a 6 i Gapel Salem i gyflwyno gwasanaeth diolchgarwch ar thema “Amrywiaeth”. Diolch i’r holl ddisgyblion wnaeth gyfrannu’n wych at y gwasanaeth ac roedd y neges yn un bwerus iawn. Mae amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan allweddol o’n gweledigaeth ni fel ysgol ac yma yn Nhreganna rydym am sicrhau bod pob un plentyn yn cael yr un cyfleoedd a’r anogaeth i gyrraedd eu potensial. Diolch i’r staff ac yn enwedig i staff blwyddyn 5 am eu holl waith yn paratoi’r disgyblion ar gyfer y gwasanaeth. A diolch i chi rieni am eich cefnogaeth barhaus ac am eich rhoddion caredig gyfer y banc bwyd.

Diolch i ddisgyblion y dosbarth Derbyn am ddiddanu’r rhieni heddiw yn y sesiwn Cawl a Chân. Wythnos yma, mae’r disgyblion wedi bod yn paratoi cawl pwmpen a chafodd y rhieni gyfle i fwynhau’r cawl wrth wrando ar y plant yn canu. Diolch i’r rhieni a’r neiniau a’r teidiau wnaeth ddod i gefnogi a diolch i staff y derbyn am drefnu.

Roedd yn hyfryd hefyd wythnos yma i groesawu rhieni i’r ysgol yn ystod ein nosweithiau rhieni a diolch i bawb wnaeth fynychu’r cyfarfodydd.

## Calendr

**HMS (Dim ysgol i’r disgyblion) 25/10/24**

**Ysgol yn ailgychwyn i bawb ar ôl hanner tymor**

**04/11/24**

## Cwlwm Rhieni Ysgol Treganna




## Ffair Nadolig Ysgol Treganna

Bydd Ffair Nadolig yr ysgol ar ddydd Sadwrn,y 30ain o Dachwedd.

Diolch yn fawr i'r GRhA a'r holl wirfoddolwyr am drefnu'r digwyddiad yma.



## Holiadur Rhieni

Fel ysgol rydym yn awyddus i gael eich barn am yr ysgol. Gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r holiadur yma. Mae'r holiadur yn ddienw. Diolch yn fawr.

https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSeGWp0LkNYnIHEXGE2Xvl1ieQ5VNFe2DxCAsZczQJxZBhs2tw/viewform?usp=pp_url

## Bore Agored

Rydym yn cynnal bore agored i ddisgyblion sydd â diddordeb cychwyn yn Ysgol Treganna ym mis Medi 25. Croeso mawr i bawb!




## Patrwm iaith yr wythnos

**Patrwm iaith yr wythnos ar ôl hanner tymor**
Beth wyt ti'n gallu gwneud?
Dwi'n gallu… Dydw i ddim yn gallu
**Her**
Rydw i'n mwynhau… oherwydd
Hoffwn i wella

**Testun trafod yr wythnos**
Pe bai gen i dri dymuniad…

**Cân yr wythnos**
Candelas - Anifail

**Idiom yr wythnos**
Taro'r hoelen ar ei phen